

CANLLAW RHAGARWEINIOL

Dulliau Llywodraethu Da

Sut i reoli'ch aelodaeth, dyroddi a rheoli
cyfranddaliadau cymunedol a chydymffurfio
â dyletswyddau diogelu data a dyletswyddau
llywodraethu eraill



Plunkett UK
Rural Community Business



Contents

Cyflwyniad	4
1. Dyroddi cyfranddaliadau cymunedol	5
2. Cynnal eich sylfaen cyfranddalwyr	6
3. Talu llog ar gyfranddaliadau	12
4. Rheoli disgwyliadau cyfranddalwyr	14
5. Rheoli'r cyfarfod cyffredinol blynyddol	16
6. Gofynion diogelu data	20
7. Trethiant a delio â CThEF	22
8. Crynodeb	24

Lluniwyd y canllaw hwn yn rhan o waith Plunkett UK i gynorthwyo cymunedau gwledig sy'n ystyried ffyrdd i achub neu sefydlu gwasanaeth drwy berchnogaeth gymunedol.

Mae'r canllaw hwn yn ategu gwasanaeth cynghori craidd Plunkett; i gael rhagor o help a chymorth i sefydlu busnes cymunedol, neu os hoffech gael mwy o wybodaeth am y manteision o ddod yn aelod o Plunkett, anfonwch e-bost i info@plunkett.co.uk neu ffoniwch ni ar 01993 630022 neu ymweld â'n gwefan yn www.plunkett.co.uk.

Mae'r wybodaeth yn y canllaw hwn wedi'i darparu at ddibenion gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n cymryd lle cyngor proffesiynol ar faterion cyfreithiol, treth neu gyfrifyddu. Mae Plunkett UK yn ymdrechu i gadw ei gymorth ysgrifenedig a geiriol yn gywir a chyfredol ac nid ydym yn datgan barn nac yn gwneud gwarantau o unrhyw fath. Felly bydd unrhyw ddibyniaeth ar y wybodaeth hon yn digwydd ar eich menter eich hun yn unig.



Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn yn trafod y materion llywodraethu cyffredin y bydd pob cymdeithas yn gorfod delio â nhw. Rydym yn gobeithio y bydd yn helpu cymdeithasau i sicrhau eu bod yn cael eu rhedeg yn unol â'r arferion gorau a'u bod yn ymwneud â'u haelodau mewn ffordd agored a thryloyw.

Yn y pen draw, bydd cymdeithasau yn dibynnu am eu llwyddiant ar ansawdd y perthnasoedd rhwng y cwsmeriaid, aelodau, y pwyllgor rheoli a'r staff neu wirfoddolwyr, a bydd gweithdrefnau llywodraethu da yn darparu strwythur i alluogi'r perthnasoedd hyn i ddatblygu mewn ffyrdd sy'n cryfhau'r busnes.

1. Dyroddi cyfranddaliadau cymunedol

Bydd grwpiau cymunedol sy'n ceisio prynu safle eu tafarn yn wynebu'r angen i godi arian sylweddol i wneud hynny ac mae'n debygol mai prif ffynhonnell y cyllid hwnnw fydd y gymuned leol sydd am fyw mewn rhywle lle mae tafarn lwyddiannus. Mae'n bwysig deall bod mabwysiadu strwythur cyfreithiol priodol yn gwneud gwahaniaeth mawr iawn yn y cyfnod cynnar allweddol hwn.

Y rheswm am hyn yw bod gwahodd y cyhoedd i fuddsoddi mewn cwmni yn weithgarwch sy'n cael ei reoleiddio o dan y Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol. Felly mae dogfennau sy'n hyrwyddo'r cyfle i fuddsoddi ymysg y cyhoedd yn gorfod cael eu cymeradwyo gan 'berson cymeradwy'. Mae hon yn broses ddrud a llafurus; bydd y costau'n amrywio a gallant fod rhwng £15,000 ac mor uchel â £50,000. A beth bynnag fydd y swm rydych yn ei dalu, bydd y dogfennau a geir o ganlyniad yn aml yn rhai dyrys ac anodd eu deall a gallant fod yn rhwystr i'r bobl gyffredin a fydd yn brif fuddsoddwyr yn y cwmni.

Felly, er bod nifer o nodweddion y **Cwmni Buddiannau Cymunedol** yn ei wneud yn ddewis atyniadol, am ei fod yn gwmni bydd y buddsoddi sy'n digwydd ynddo, gwaetha'r modd, yn dod o dan y fframwaith rheoleiddio hwn.

Fodd bynnag, mae Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol yn esempt rhag y rheoliadau hyn wrth ddyroddi cyfranddaliadau na ellir eu trosglwyddo na'u tynnu'n ôl – sydd hefyd yn cael eu galw'n Gyfranddaliadau Cymunedol – a dyma pam mae mwyafrif helaeth y tafarndai sydd mewn perchnogaeth gymunedol yn gweithredu drwy **Gymdeithas Budd Cymunedol ('CBS')** ac yn dyroddi cyfranddaliadau cymunedol i fuddsoddwyr yn eu cymuned leol.

Am nad oes rhaid i'r CBC neidio dros gymaint o glwydi cyfreithiol, bydd y dogfennau sy'n cynnig cyfranddaliadau yn rhai llawer mwy hwylus ac yn cynnwys llai o lawer o jargon cyfreithiol ond yn hytrach yn egluro manylion y broses dyroddi cyfranddaliadau mewn iaith syml.

Lle mae cyfleoedd yn cael eu cynnig i fuddsoddi mewn ecwiti neu ddyled y tu allan i fanc neu

gymdeithas adeiladu brif ffrwd, pa un a ydynt yn cael eu cymeradwyo gan berson cymeradwy neu beidio, ni fyddant yn dod o dan y Cynllun Digolledu Gwasanaethau Ariannol ac ni fydd y rheini sy'n buddsoddi ynddynt yn gallu troi at yr Ombwdsmon Ariannol.

Felly, mae'r rhan fwyaf o lawer o'r sefydliadau cymunedol sydd wedi prynu neu sydd wrthi'n prynu tafarndai yn defnyddio model y CBC gan ei fod yn hawdd ei ddefnyddio ac yn isel iawn ei gost.

Nid oes safonau neu ofnion cyfreithiol ar gyfer fformat y dogfennau cynnig cyfranddaliadau. Er hynny, mae set o arferion gorau wedi datblygu dros amser. Mae hyn yn ganlyniad yn rhannol i'r awydd mewn cyrff sy'n gwneud grantiau i weld lefelau uchel o lywodraethu yn y grwpiau y maent yn eu cefnogi.

Gellir dyroddi cyfranddaliadau un ai drwy eu cynnig am gyfnod penodol lle mae angen codi swm penodol i gwrdd â therfyn amser (wrth godi swm mawr o arian i brynu tafarn, er enghraifft), neu drwy eu gwerthu i unigolion yn ôl yr angen ar unrhyw adeg pan fydd y busnes mewn cyfnod mwy 'aeddffed' a'r incwm a'r angen am gyfalaf yn fwy rhagweladwy (sef cynnig cyfranddaliadau 'penagored').

Mae'n well gan rai rhoddwyr grantiau gefnogi cynigion cyfranddaliadau sydd wedi'u hachredu â'r 'Marc Safon'. Gellir cael yr achrediad hwn pan gaiff y ddogfen cynnig ei chymeradwyo gan asesydd trwyddedig sy'n cadarnhau bod y ddogfen yn gyson â'r canllawiau arferion gorau sydd wedi'u gosod gan yr Uned Cyfranddaliadau Cymunedol.

Mae gwybodaeth ddefnyddiol ar gael ar y gwefannau hyn:

FCA

<https://www.fca.org.uk/firms/approved-persons>

Yr Uned Cyfranddaliadau Cymunedol

<https://communityshares.org.uk/resources/handbook>

GAIR O GYNGOR

Mae Plunkett yn cynnig set o Reolau Enghreifftiol i gofrestru'ch CBC gyda'r FCA ar gyfradd is i aelodau.



2. Cynnal eich sylfaen cyfranddalwyr

Pwrpas rheoli cofnodion yw gwybod beth sydd gennych chi, ble mae a pha mor hir rydych chi'n gorfod ei gadw.

Cofrestr cyfranddalwyr

Pan fydd cyfranddaliadau'n cael eu dyroddi i **aelodau** (sydd hefyd yn gallu cael eu galw'n gyfranddalwyr), rhaid cofnodi cyfranddaliadau'r aelodau mewn cofrestr.

Mae gofynion manwl mewn cyfraith am y wybodaeth y mae'n rhaid ei chofnodi yn y gofrestr ar gyfer pob aelod:

- enw a chyfeiriad post yr aelod
- y cyfeiriad e-bost, os yw'r aelod wedi hysbysu'r gymdeithas am y cyfeiriad hwnnw ar gyfer derbyn hysbysiadau neu ddogfennau, a'r dibenion y mae'r aelod wedi hysbysu'r gymdeithas amdanynt ar gyfer y cyfeiriad e-bost
- nifer y cyfranddaliadau y mae'r aelod yn eu dal a'r swm a dalwyd neu y cytunwyd i ystyried ei fod wedi'i dalu am y cyfranddaliadau
- datganiad am eiddo arall yn y gymdeithas sy'n cael ei ddal gan yr aelod (boed ar ffurf benthyciadau, blaendaliadau neu fel arall)
- y dyddiad y cofnodwyd ar y gofrestr fod y person yn aelod
- y dyddiad y peidiodd y person â bod yn aelod

Mae'r gyfraith hefyd yn gofyn am nodi manylion **swyddogion** y gymdeithas (y rheini sy'n rhan o'r **pwyllgor neu fwrdd rheoli**) yn y gofrestr. Y wybodaeth sy'n ofynnol yw:

- yr enw a'r cyfeiriad post
- y cyfeiriad e-bost, os yw'r aelod wedi hysbysu'r gymdeithas am y cyfeiriad hwnnw ar gyfer derbyn hysbysiadau neu ddogfennau, a'r dibenion y mae'r aelod wedi hysbysu'r gymdeithas amdanynt ar gyfer y cyfeiriad e-bost
- y swydd y mae'n ei dal
- y dyddiad roedd y person wedi ymgymryd â'r swydd

Gellir cadw'r gofrestr a'i rheoli un ai drwy wneud cofnodion mewn llyfrau wedi'u rhwymo neu (yn fwy tebygol) drwy gofnodi'r wybodaeth mewn ffordd arall – fe wneir hyn ar daenlen fel arfer gan ddefnyddio meddalwedd fel Excel.

Ym mha ffordd bynnag y mae'r wybodaeth yn cael ei chadw, dylid cymryd gofal i osgoi ffugio, i hwyluso ei hadfer ac i ddiogelu'r data personol sydd ynddi.

Wrth ddefnyddio taenlenni, peth doeth fydd cadw'r gofrestr mewn ffeil wedi'i diogelu gan gyfrinair a gaiff ei storio ar weinydd pell a dylai'r pwyllgor rheoli neu aelodau dynodedig o'r pwyllgor allu cael mynediad ati. Ni ddylid cadw'r wybodaeth hon ar gyfrifiaduron personol neu liniaduron etc. yn unig oherwydd gallai'r rhain gael eu colli neu eu dwyn.

GAIR O GYNGOR

Mae'r ap Air Register wedi'i ddatblygu gan arbenigwyr ym maes Cymdeithasau Budd Cymunedol i'ch helpu i gadw'ch cofrestr fel y bydd yn hygyrch, yn bodloni holl ofynion y gyfraith ac yn eich helpu i reoli pethau fel taliadau llog a thaliadau allan i gyfranddalwyr. Un o'r pethau gorau amdano yw ei fod ar gael am ddim. Gweler www.air-register.co.uk



Mae Deddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol bod aelodau'n gallu gweld y gofrestr gyfan, heb allu gweld pa nifer o gyfranddaliadau neu eiddo arall sydd gan neb arall heblaw nhw eu hunain. Gellid gwneud hyn drwy ddefnyddio cofrestr ddyblyg neu feddalwedd sy'n darparu gwahanol 'olygon' ('views') i atal pobl rhag gweld gwybodaeth nad oes ganddynt ganiatâd i'w gweld ac i ddangos gwybodaeth y mae ganddynt hawl i'w gweld.

Gan fod y gofynion i gymdeithasau gadw cofrestr a chaniatáu mynediad ati wedi cael eu diffinio mewn cyfraith statud, nid yw gofynion y GDPR yn rheswm dilys dros wrthod cais gan aelod i weld y gofrestr (ond mae'r GDPR yn gymwys i'r ffordd y mae'r gymdeithas yn rheoli'r data ac yn eu defnyddio mewn ffyrdd sy'n mynd y tu hwnt i ofynion Deddf 2014 e.e. rhoi cyfeiriadau e-bost i drydydd parti fel cwmni marchnata).

Mae'n bwysig nodi bod cofnodion yn y Gofrestr yn dystiolaeth olwg gyntaf o'r wybodaeth sydd ynddynt. Gellir dyroddi tystysgrifau cyfranddaliadau ffisegol i gyfranddalwyr ond nid yw hyn yn ofyniad cyfreithiol, ac os oes anghysondeb rhwng yr hyn sydd ar y dystysgrif cyfranddaliadau a'r hyn sydd yn y gofrestr, y gofrestr fydd yn cael blaenoriaeth.

Rheoli trefniadau ar gyfer tynnu cyfranddaliadau yn ôl

Un o nodau amgen y cyfranddaliadau sy'n cael eu dal mewn CBC yw bod y buddsoddwr yn gallu eu tynnu'n ôl, os yw hynny'n unol â rheolau'r gymdeithas.

Fel arfer, bydd rheolau'r gymdeithas yn nodi'r polisi ar dynnu cyfranddaliadau yn ôl a bydd y rheolau fel arfer yn cynnwys y manylion hyn:

- Gall cyfranddaliadau gael eu tynnu'n ôl gan aelodau sydd wedi'u dal am gyfnod penodol, er enghraifft, tair blynedd neu unrhyw gyfnod arall y bydd y pwyllgor rheoli yn ei benderfynu.
- Gwneir ceisiadau am dynnu'n ôl yn unol â gweithdrefn a fydd wedi'i phennu fel arfer yn rheolau'r gymdeithas ac fel arfer bydd yn pennu cyfnod hysbysu byrraf a gofyniad bod yr aelod yn gwneud y cais drwy lenwi ffurflen benodol a ddarparwyd i'r diben hwn gan y pwyllgor rheoli.
- Gall y pwyllgor rheoli bennu uchafswm ar gyfer cyfanswm ei gyfalaf y gellir ei dynnu'n ôl yn y flwyddyn ariannol honno (e.e. dim mwy na 10% o gyfanswm ei gyfalaf cyfranddaliadau).
- Rhaid i'r holl gyfranddaliadau a dynnir yn ôl gael eu hariannu o wargedau masnachu neu gyfalaf cyfranddaliadau newydd a godwyd oddi wrth aelodau.
- Gwneir yr holl benderfyniadau ar dynnu cyfranddaliadau yn ôl fel y mae'r pwyllgor rheoli yn gweld orau gan ddal sylw ar fuddiannau tymor hir y gymdeithas, yr angen i gadw arian wrth gefn yn ddarbodus ac ymrwymiad y gymdeithas i ddod â budd i'r gymuned.
- Rhaid talu'r holl gyfranddaliadau a dynnir yn ôl yn y drefn y cafwyd y ceisiadau, hyd at unrhyw uchafswm a bennwyd ar gyfer cyfanswm y cyfranddaliadau a dynnir yn ôl ar gyfer y flwyddyn ariannol, ac ni cheir tynnu unrhyw gyfranddaliadau yn ôl wedi hynny.
- Ac eithrio lle mae aelod yn bwriadu terfynu ei aelodaeth, ni chaniateir iddo dynnu cyfranddaliadau yn ôl gan ei adael â llai na'r isafswm sy'n ofynnol yn ôl y rheolau.
- Caiff y pwyllgor rheoli hepgor y cyfnod hysbysu sy'n ofynnol i dynnu cyfranddaliadau yn ôl a chaiff gyfarwyddo bod taliad i'w wneud heb gyfnod hysbysu neu ar ôl unrhyw gyfnod hysbysu byrrach y mae'n ei ystyried yn briodol.

- Gall y pwyllgor rheoli atal yr hawl i dynnu cyfranddaliadau yn ôl un ai'n rhannol neu'n llwyr, ac am gyfnod penodol neu amhenodol. Rhaid i'r atal fod yn gymwys i'r holl hysbysiadau am dynnu'n ôl, yn cynnwys y rheini a gafwyd ac sydd heb eu talu eto ar y pryd. Os yw'r atal am gyfnod penodol, gellir ymestyn y cyfnod atal o bryd i'w gilydd gan y pwyllgor rheoli.
- Yn ystod unrhyw gyfnod pan yw'r hawl i dynnu'n ôl wedi'i hatal, gellir tynnu'n ôl gyfranddaliadau aelod ymadawedig, os bydd y pwyllgor rheoli yn cytuno, gan ei gynrychiolwyr personol ar ôl rhoi hysbysiad yn unol â gofynion y pwyllgor rheoli.
- Mae ymddiriedolwr mewn methdaliad yn gallu hawlio cyfranddaliadau aelod methdalus, lle mae'r ymddiriedolwr wedi cael yr hawl i unrhyw eiddo i'r parti methdalus. Gellir gwaredu'r cyfranddaliadau yn ôl cyfarwyddyd yr ymddiriedolwr.
- Yn yr un modd ag yn achos aelod methdalus (uchod), mae'r cynrychiolydd personol i aelod ymadawedig yn gallu hawlio cyfranddaliadau aelod ymadawedig a gellir eu defnyddio yn unol â chyfarwyddyd y cynrychiolydd personol.
- Gall y gymdeithas ddidynnu swm rhesymol i dalu costau gweinyddol y tynnu'n ôl o'r arian sy'n daladwy i aelod pan fydd yn tynnu cyfranddaliadau yn ôl.

Yr ystyriaethau allweddol yw bod y tynnu'n ôl yn digwydd yn ôl disgrisiwn y pwyllgor rheoli ac na ddylai unrhyw dynnu'n ôl arwain at danseilio hyfywedd y gymdeithas.

Yng nghanllawiau'r FCA, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2015, nodir na ddylai cymdeithas ganiatáu tynnu cyfranddaliadau yn ôl "oni bai fod ganddi wargedau masnachu sy'n gyfwerth â'r cyfranddaliadau sy'n gysylltiedig, neu'n fwy na'u gwerth, a bod y cyfarwyddwyr yn credu bod y gymdeithas yn gallu fforddio talu ei dyledion gan gymryd i ystyriaeth ei holl rwymedigaethau (yn cynnwys a fydd yn gallu talu ei dyledion ar ddyddiad y tynnu'n ôl, ac am flwyddyn ar ôl hynny, unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol neu ragolygol) a sefyllfa'r gymdeithas ar ddyddiad y trafodiad".

Ychydig o sôn sydd yn Neddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 am dynnu'n ôl gyfalaf cyfranddaliadau. Er hynny, mae Adran 124 o'r Ddeddf yn gwneud aelodau'n llwyr atebol am werth eu cyfalaf cyfranddaliadau a ddaliwyd hyd at un flwyddyn cyn i'r gymdeithas gael ei dirwyn i ben, os bydd y gymdeithas yn mynd yn ansolfent, **hyd yn oed os yw'r aelod wedi tynnu'n ôl ei gyfalaf cyfranddaliadau ac wedi peidio â bod yn aelod o'r gymdeithas.** Mae hyn yn ei gwneud yn ddyletswydd i gyfarwyddwyr beidio â chaniatáu tynnu'n ôl gyfalaf cyfranddaliadau os oes lle i gredu y gall y gymdeithas fynd yn ansolfent. Dylid cyfyngu neu atal y gallu i dynnu'n ôl gyfalaf cyfranddaliadau os yw rhwymedigaethau'r gymdeithas yn fwy na'i hasedau, neu os oes perygl iddynt fod felly yn y deuddeg mis nesaf.

Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol yw bod angen i bwyllgorau allu ateb yn gadarnhaol o leiaf un o'r ddau gwestiwn cyntaf, a hefyd y trydydd cwestiwn wrth ystyried a fyddant yn caniatáu tynnu cyfranddaliadau yn ôl:

1. A yw'r llinell 'enillion a gadwyd' ar eich mantolen yn bositif ac yn fwy na gwerth y cyfranddaliadau sydd i gael eu tynnu'n ôl?
2. A oes cyfalaf cyfranddaliadau newydd wedi'i fuddsoddi yn y flwyddyn hon sy'n fwy na gwerth y cyfranddaliadau sydd i gael eu tynnu'n ôl?
3. A yw'n rhesymol ac yn gredadwy i chi gymryd y bydd y gymdeithas yn gallu gweithredu'n solfent os caniateir y cais i dynnu'n ôl ac os bydd y swm hwn o arian yn gadael y gymdeithas?



Delio â marwolaeth aelodau

Mae Deddf 2014 yn pennu gweithdrefnau y dylai cymdeithas eu mabwysiadu pan fydd y pwyllgor rheoli yn cael ei hysbysu neu'n dod i wybod bod aelod wedi marw. Mae'r manylion ar gael yma: <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2014/14/contents>

Bydd yr hyn a fydd yn digwydd ar farwolaeth aelod yn dibynnu ar ddau ffactor:

- gwerth ei gyfranddaliadau yn y gymdeithas a gwerth ei fenthyciadau i'r gymdeithas
- a yw wedi enwebu unigolyn.

Lle mae cyfanswm y buddsoddiadau ar adeg marwolaeth yr aelod yn £5,000 neu'n fwy, rhaid i'r gymdeithas aros i gael ei hysbysu gan ysgutoriaid yr aelod am yr hyn a ddylai ddigwydd i'w fuddsoddiadau.

Lle mae'r buddsoddiadau yn llai na £5,000, yna mae'r Ddeddf yn caniatáu i fwrdd y gymdeithas benderfynu beth fydd yn digwydd nesaf, a hynny'n dibynnu ar ba un a yw'r aelod wedi gwneud enwebiad neu beidio cyn ei farw o ran pa unigolyn/unigolion a ddylai gael ei fuddsoddiad.

- Mae rhai cymdeithasau'n dewis cynnwys adran yn eu ffurflen cais am gyfranddaliadau sy'n annog yr ymgeisydd i enwebu un neu ragor o fuddiolwyr, ond gellir gwneud enwebiadau ar unrhyw adeg a rhaid iddynt nodi'n glir i bwy y dylid trosglwyddo'r buddsoddiad, cael eu llofnodi gan yr aelod a chael eu derbyn cyn ei farwolaeth.

- Rhaid i'r gymdeithas gadw llyfr yn cofnodi enwau'r holl aelodau y cafodd enwebiadau ar eu cyfer ac unrhyw ddirymiaid neu amrywiadau a wneir wedyn (DS bydd enwebiad yn cael ei ddirymu'n awtomatig os bydd aelod yn priodi neu'n ffurfio partneriaeth sifil).

Pan fydd y gymdeithas wedi cael prawf boddhaol bod yr aelod wedi marw, gall y pwyllgor awdurdodi'r trosglwyddo yn unol â'r cyfarwyddiadau yn yr enwebiad, a bydd enwebiad yn drech na'r dymuniadau a fynegwyd mewn ewyllys os oes unrhyw anghytundeb.

Os nad oes enwebiad dilys (am fod yr aelod a fu farw heb wneud un neu os yw'r derbynnydd a enwebwyd wedi marw), bydd y pwyllgor yn rhoi awdurdod i drosglwyddo'r buddsoddiad i unrhyw un (ar wahân i'w swyddogion ei hun) fel y mae'n gweld orau. Er bod rhyddid gan y gymdeithas i drosglwyddo'r cyfranddaliadau i bwy bynnag y mae'n gweld orau, dylai'r gymdeithas gysylltu â pherthynas agosaf neu ysgutoriaid yr aelod ymadawedig er mwyn canfod ffordd briodol i fwrw ymlaen: gallai hynny gynnwys canslo'r cyfranddaliadau gan y gymdeithas yn lle eu trosglwyddo i bobl eraill.

Fel na fydd ansicrwydd:

- Gellir trosglwyddo buddsoddiadau yn rhannau i wahanol bobl. Er enghraifft, gellir rhannu buddsoddiad rhiant o £2000 yn 4 buddsoddiad ar wahân o £500 i bob un o'i 4 plentyn.
- Gellir eu trosglwyddo hefyd i gydberchnogion newydd, ar yr amod bod eich rheolau'n darparu ar gyfer aelodaeth ar y cyd, fel bod buddsoddiad rhiant o £2,000 yn cael ei drosglwyddo i enwau ei 4 plentyn ar y cyd.
- Os gwnaed enwebiad pan oedd buddsoddiad yr aelod yn llai na £5,000 ond ei fod wedi cynyddu wedyn drwy fuddsoddi ychwanegol i fod yn fwy na hynny, yna ni fydd yr enwebiad gwreiddiol yn ddilys a rhaid delio â'r trosglwyddiad ar sail ewyllys yr aelod.

- Pa broses bynnag y bydd y gymdeithas yn ei dilyn, pan fydd y pwyllgor yn glir ynghylch pwy a ddylai gael y buddsoddiadau, dylai drosglwyddo'r buddsoddiad ond bydd hefyd yn gallu talu gwerth llawn y buddsoddiadau iddo.

Os nad yw'r gymdeithas yn gallu caniatáu i gyfranddaliadau gael eu tynnu'n ôl am nad yw'n ddigon proffidiol, bydd yn rhaid iddi ddefnyddio cyfalaf cyfranddaliadau newydd i alluogi'r aelod sy'n ei dderbyn i fynd â'r arian o goffrau'r gymdeithas. Dyma lle mae polisi ar dynnu cyfranddaliadau yn ôl yn gallu bod o gymorth, gan y bydd yn dangos yn glir beth fydd eich safbwynt ar bobl sy'n etifeddu cyfranddaliadau yn gofyn am eu tynnu'n ôl; gwell o lawer yw dibynnu ar bolisi yn hytrach na ffurfio polisi ar y pryd wrth negodi ag etifeddion sydd mewn profedigaeth.

- Os ydych yn gallu caniatáu tynnu cyfranddaliadau yn ôl yn gyffredinol am fod y gymdeithas yn broffidiol ond nad ydych am dalu'r symiau sy'n ddyledus yn un swm, gallwch gytuno â'r aelod sy'n etifeddu i drosi'r buddsoddiad yn ddyled i'w had-dalu yn ôl amserlen.
- Os yw'r person sy'n derbyn y buddsoddiadau yn fuddsoddwr yn barod, a bod ei fuddsoddiadau ei hun a'r rhai y mae'n eu derbyn yn dod i gyfanswm sy'n fwy nag uchafswm y buddsoddiadau a ganiateir (a fydd wedi'i nodi yn rheolau'r gymdeithas neu'n uchafswm cyfreithiol o £100,000), yna bydd y trosglwyddiad yn cael ei gyfyngu i'r swm sy'n cadw cyfanswm buddsoddiadau'r aelod sy'n derbyn ar lefel yr uchafswm, beth bynnag yw hwnnw, a rhaid talu iddo'r swm sy'n weddill neu ei drosi'n ddyled i'w had-dalu yn ôl amserlen a gytunir.

- Os yw'r enwebai o dan 16 oed, gall y gymdeithas dalu unrhyw swm sy'n ddyledus un ai i riant neu warcheidwad i'r enwebai, neu i unrhyw berson arall sy'n 18 oed neu'n hŷn sy'n ymgymryd i'w ddal ar ymddiriedolaeth i'r enwebai neu ei ddefnyddio er budd yr enwebai ac sy'n un y mae'r gymdeithas yn credu ei fod yn berson addas a phriodol i'r diben hwn.
- Os yw'r gymdeithas yn ymwneud â rhedeg y busnes cymunedol yn uniongyrchol (lle mae gwaith yn cael ei wneud gan gyflogaion a/neu wirfoddolwyr y gymdeithas), yna mae Rhyddhad i Fusnesau rhag Treth Etifeddiant yn gymwys i fuddsoddiadau sy'n cael eu trosglwyddo.



3. Talu llog ar gyfranddaliadau

Penderfynu talu llog

Y prif reswm bob amser dros fuddsoddi mewn CBC yw bod rhywun yn gweld hynny'n ffordd i fuddsoddi yn ei gymuned yn hytrach na'i weld yn ffordd i gael budd ariannol personol.

Er hynny, un o brif nodweddion cyfranddaliadau cymunedol yw bod y gymdeithas yn gallu penderfynu talu llog i aelodau ar eu buddsoddiad ac mae'n sicr bod hyn yn atyniad i nifer mawr o ddarpar fuddsoddwyr.

Bydd gan bob cymdeithas ei pholisi ei hun ar daliadau o'r fath: er enghraifft, gallai benderfynu peidio â thalu llog yn ystod y tair blynedd cyntaf o weithredu; neu na fydd yn talu llog ar gyfranddaliadau sy'n is na lefel benodol; neu y bydd yn capio taliadau llog ar lefel benodol.

Beth bynnag yw'r polisi, bydd y penderfyniadau ar gronni a thalu llog a'r gyfradd llog sydd i'w chymhwyso yn cael eu gwneud gan yr aelodau ym mhob cyfarfod cyffredinol blynyddol, ar sail cynnig gan y pwyllgor rheoli.

Mae'n bwysig cofio mai dim ond os oes elw digonol neu ddigon o arian wrth gefn y bydd y gymdeithas yn gallu talu llog ac nad yw'r gymdeithas yn gorfod gwneud taliadau llog; o safbwynt cyfrifyddu, cost gweithredu yw llog.

Yn achos Cymdeithas Budd Cymunedol, mae'n bwysig nodi na fydd elw byth yn cael ei dalu i aelodau, ac nad yw llog byth i gael ei weld yn ffordd i ddosbarthu elw. Mae'n daliad i'r aelod am ddefnyddio cyfalaf yr aelod, felly mae'n gost am redeg busnes sy'n cael ei didynnu o incwm trethadwy wrth gyfrifo gwarged y gymdeithas.

Dylid datgan y llog cyn diwedd y flwyddyn ariannol pan gaiff ei dalu ac, er y gellid ei atal os nad yw bwrdd y gymdeithas yn credu ei fod yn beth doeth i'w dalu, neu ei leihau o'r gyfradd sylfaenol sydd wedi'i datgan yn y rheolau, ni all fod yn uwch na'r gyfradd a ddatganwyd na'r gyfradd yn y rheolau, hyd yn oed os byddai'r amgylchiadau masnachu wedi caniatáu talu mwy o log fel arall. Os byddai cymdeithas yn torri'r rheol hon, byddai mewn perygl o dorri amodau'r FCA ar gyfer ei chofrestru a gallai hynny arwain yn y pen draw at golli ei statws atebolrwydd cyfyngedig.

Sut i dalu llog

Os yw llog i gael ei dalu yn unol â phenderfyniad y cyfarfod cyffredinol blynyddol a bod y gymdeithas mewn sefyllfa ariannol lle mae'n gallu gwneud y taliadau, sut y dylid gwneud hynny?

Cyfrifo'r swm

Yn ffodus, gan fod meddalwedd taenlenni fel MS Excel ar gael yn gyffredinol, mae'n hawdd cyfrifo beth sy'n ddyledus i bob aelod (ac yn haws byth wrth ddefnyddio'r system Air Register).

Gwneud y taliad

Y ffordd fwyaf cyffredin i wneud y taliad yw ei drosglwyddo'n uniongyrchol i gyfrif banc y cyfranddaliwr (gan ofalu bod y wybodaeth bancio yn cael ei thrin yn gyfrinachol ac yn unol â'r GDPR), anfon siec neu wneud taliad mewn arian parod.

Gellir ei wneud hefyd drwy roi taleb i'w defnyddio o fewn y busnes (sy'n gostwng y gost arian parod i'r gymdeithas gan gadw ei gwerth mewn arian parod i'r aelod), ac yn olaf, gellir ei dalu hefyd ar ffurf cyfalaf cyfranddaliadau newydd, fel na fydd arian parod yn gadael y gymdeithas.

Ym mha ffordd bynnag y caiff ei dalu, a pha bryd bynnag, mae'n gost am wneud busnes ac yn draul y gellir ei didynnu o dreth yng nghyfrifon colled ac elw'r gymdeithas.

Os caiff ei dalu ar ffurf cyfranddaliadau newydd, dylid cynnwys cynnydd cyfatebol yn y cyfalaf cyfranddaliadau ar y fantolen sy'n gyfwerth â'r llog, ac wrth dalu i aelodau ar ffurf cyfranddaliadau newydd bydd y cynnydd yng nghyfanswm eu buddsoddiadau yn cael ei gofnodi yn y gofrestr aelodau.

Bydd rhai cymdeithasau'n cynnig y cyfle i ddewis rhai o'r opsiynau hyn i'w haelodau cyn gwneud taliadau, ac yn cynnig y dewis o roi'r llog i'r gymdeithas, sy'n ddewis poblogaidd gan y rheini sydd â buddsoddiadau bach ac felly'n cael swm bach o log.

Rhoi gwybod i aelodau am eu cyfrifoldeb i hysbysu CThEF

Yn achos aelodau sy'n byw yn y DU, caiff y llog ei dalu fel swm 'gros', h.y. heb ddidynnu treth incwm, yn wahanol i'r sefyllfa o ran llog banciau a chymdeithasau adeiladu lle caiff treth ei didynnu ar y gyfradd dreth sylfaenol. Mae'n bwysig bod y gymdeithas yn ei gwneud yn glir i'w haelodau mai cyfrifoldeb yr aelod yw hysbysu CThEF am unrhyw log a enillwyd ar ei gyfranddaliadau; mae'n debyg y bydd y rhan fwyaf o aelodau wedi gofalu am hyn.

Yn achos buddsoddwyr y tu allan i'r DU, bydd y gymdeithas yn datgan hyn i CThEF ac yn ei dalu bob blwyddyn.

DS Hyd yn oed os bydd yr aelod yn dewis ei roi i'r gymdeithas, neu'n ei dderbyn ar ffurf cyfranddaliadau newydd, bydd CThEF yn parhau i gymryd bod yr aelod wedi derbyn taliad a bydd angen iddo ei ddatgan fel uchod; yr unig eithriad i hyn yw lle mae aelod yn gwneud penderfyniad parhaol, unwaith ac am byth, y bydd yn derbyn llai o log.

Cadw cofnodion

Fel y nodwyd uchod, dylid cadw cofnodion o gyfrifiadau a thaliadau llog yn ddiogel a'u defnyddio wrth gwblhau'r Datganiad Cymdeithasau Cofrestredig i'w anfon i CThEF. Mae CThEF hefyd yn gofyn am ddatgan y llog yng nghyfrifon colled ac elw'r gymdeithas am y flwyddyn pan dalwyd ef i'r aelodau, nid y flwyddyn y mae'r taliadau'n berthnasol iddi.



4. Rheoli disgwyliadau aelodau

Heb aelodau, ni fyddai cymdeithasau budd cymunedol yn bod. Byddant yn chwarae rhan hanfodol yn y rhaglen codi arian, wrth brynu'r dafarn ar y dechrau ac mewn gweithgareddau codi arian sy'n dilyn, felly bydd y gymdeithas yn eu trin gyda'r parch mwyaf, hyd yn oed os byddant weithiau'n achosi rhywfaint o annifyrrwch i reolwyr y gymdeithas.

Felly, beth ddylai'r pwyllgor rheoli ei wneud i gynnwys yr aelodau yng ngwaith y gymdeithas?

I'w helpu i weithredu mewn ffordd dryloyw ac atebol, dylai'r pwyllgor ystyried y chwe phwynt canlynol:

1. Gwybodaeth

Mae'n bwysig rhoi gwybod i aelodau beth sy'n digwydd yn y gymdeithas. Mae'n debyg mai'r dull cyfathrebu mwyaf effeithiol fydd anfon cylchlythyr drwy'r e-bost at aelodau yn rheolaidd (heb ddangos cyfeiriadau e-bost neb arall wrth wneud hynny, wrth gwrs!) yn cynnwys lluniau ac adolygiadau o ddigwyddiadau blaenorol a rhestr o ddigwyddiadau i ddod. Bydd tudalennau Facebook, yn enwedig y rheini sy'n cymell y darllenwyr i gymryd rhan, yn cyrraedd cyfranddalwyr yn ogystal â chwsmeriaid. Efallai y gallai'r pwyllgor alw cyfarfodydd rheolaidd ond anffurfiol i aelodau i roi diweddariad ar berfformiad y gymdeithas a rhoi cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig awgrymiadau.

Llif annigonol o wybodaeth a diffyg deialog yw prif achosion y problemau ym mhob agwedd ar fywyd ond mae yna bethau y gallwch eu rheoli.

Dylech gofio hefyd ei bod yn ddigon posibl bod rhai aelodau heb fynediad at y rhynggrwyd: **peidiwch ag esgeuluso'r aelodau hyn**. Dylech roi system ar waith sy'n sicrhau eu bod yn cael copïau papur o'r holl newyddion pwysig oddi wrth y gymdeithas, er enghraifft, manylion y cyfarfodydd cyffredinol blyneddol (gweler isod). Gallwch eu danfon â llaw neu eu gyrru drwy'r post.

2. Tryloywder

Yn amodol ar unrhyw ystyriaethau o ran cyfrinachedd (e.e. contractau cyflogaeth), dylai'r pwyllgor sicrhau bod cymaint o wybodaeth â phosibl yn cael ei rhannu ag aelodau. Wrth gwrs, ni ellir dosbarthu data personol na data masnachol sensitif yn eang. (DS Nid yw data masnachol sensitif yn golygu'r un peth â gwybodaeth fasnachol y mae'r pwyllgor yn sensitif amdani!) Ond dylid trefnu bod gwybodaeth ar gael i aelodau am benderfyniadau'r pwyllgor a'r rheswm drostynt. Mewn rhai amgylchiadau, gallai fod yn werth i'r pwyllgor wahodd rhai aelodau i gymryd rhan mewn rhai mathau o weithgareddau. Er enghraifft, mae cyf-weld rheolwyr a/neu denantiaid posibl yn dasg y byddai cyfranddalwyr o'r tu allan i'r pwyllgor yn gallu chwarae rhan werthfawr ynddi.



3. Mynediad

Mae llawer o aelodau'n hoffi cael mynediad rhwydd at y pwyllgor, felly gofalwch fod enwau aelodau'r pwyllgor wedi'u dangos ar wefan yn ogystal â manylion ar gyfer cysylltu â nhw drwy'r e-bost neu dros y ffôn. Ac er ei fod yn rhywbeth syml ac elfennol, cofiwch fod blwch awgrymiadau yn gallu bod yn effeithiol iawn.

4. Rhoi llais i'r aelodau

Y cyfarfod cyffredinol blynyddol yw'r prif ddigwyddiad yn ystod y flwyddyn lle bydd aelodau'n cael adolygiad o weithgarwch y 12 mis blaenorol ac asesiad gan y pwyllgor o'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol. Bydd cyfle i'r aelodau bleidleisio ar gynigion a gyflwynir gan y pwyllgor, yn cynnwys cytuno ar lefel y llog sydd i'w roi ar gyfrandaliadau, derbyn datganiadau ariannol a chymeradwyo penodiad cyfrifwyr y gymdeithas os bydd angen. Y cyfarfod cyffredinol blynyddol yw'r achlysur hefyd ar gyfer pleidleisio dros benodi swyddogion y pwyllgor rheoli.

Yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol, dylid neilltuo amser hefyd i aelodau ofyn cwestiynau i'r pwyllgor.

Ceidwad asedau'r aelodau

Mae gan aelodau yr hawl i ddisgwyl y bydd eu cynrychiolwyr ar y pwyllgor rheoli yn gofalu'n ddarbodus am asedau'r gymdeithas. Mae'n bwysig bod y pwyllgor, wrth wneud penderfyniadau busnes, yn cofio eu bod yn geidwaid dros asedau pobl eraill a bod rhaid iddynt gymryd gofal priodol.

Er mor ddefnyddiol yw'r cyfarfod cyffredinol blynyddol, am mai dim ond unwaith y flwyddyn y caiff ei gynnal, bydd yn fuddiol i'r pwyllgor ddarparu cyfleoedd eraill i ymgysylltu ag aelodau. Gellid gwneud hynny drwy gynnal cyfarfodydd ffurfiol eraill i aelodau drwy gydol y flwyddyn yn ogystal â thrwy ddigwyddiadau llai ffurfiol yn y dafarn lle byddwch yn gofyn am adborth yn ystod gweithgareddau eraill a dulliau llai ffurfiol byth fel arolygon a holiaduron

5. Conduct and behaviour

Mae'n beth arferol i gymdeithasau ofyn i aelodau'r pwyllgor rheoli ymrwymo i god ymddygiad a fydd yn rheoli eu ffordd o ymddwyn tra byddant yn y swydd. Mae un enghraifft dda o god ymddygiad wedi'i hatodi i reolau enghreifftiol Plunkett UK.



5. Rheoli'r cyfarfod cyffredinol blynyddol

Cyfarfod cyffredinol blynyddol y gymdeithas yw prif ddigwyddiad y flwyddyn.

Bydd gofyniad yn rheolau'r gymdeithas i gynnal cyfarfod cyffredinol blynyddol, fel arfer o fewn nifer penodol o fisoedd i ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r rheolau hefyd yn pennu eitemau penodol sydd i'w cynnwys ar yr agenda.

Dyma'r achlysur hefyd pan fydd aelodau'n gallu arfer eu hawliau fel perchnogion y gymdeithas, yn bennaf drwy ethol swyddogion i wasanaethu ar bwyllgor rheoli'r gymdeithas. Mae recriwtio aelodau newydd i'r pwyllgor yn dasg allweddol i bob pwyllgor rheoli, er mwyn sicrhau olyniaeth wrth i'r aelodau presennol roi'r gorau iddi. Ar y dechrau, ar ôl cwblhau pryniant y dafarn yn enwedig, byddwch yn gweld bod angen set sgiliau newydd i redeg y busnes a byddai'r aelodau cyntaf yn gallu dechrau blino ar fod yn wirfoddolwyr. Gallwch ymateb i hyn drwy annog cyfranddallwyr i gynnig eu henwau i ddod ar y pwyllgor.

Gan fod y cyfarfod cyffredinol blynyddol mor bwysig, peth doeth fydd dechrau cynllunio'r cyfarfod ymhell o flaen llaw a rhoi gwybod i'r aelodau am y dyddiad cyn gynted ag y cytunir arno.

Y gofyniad ffurfiol yw bod aelodau'n cael eu hysbysu am y cyfarfod cyffredinol blynyddol ymhell o flaen llaw – o leiaf 14 'diwrnod clir' fel arfer (sef 14 diwrnod, ynghyd ag un diwrnod o'u blaen i anfon hysbysiaidau ac un diwrnod ar eu hôl ar gyfer eu derbyn). Y peth arferol yw cylchredeg yr hysbysiad o'r cyfarfod a'r agenda (yn ogystal ag unrhyw bapurau, fel cyfrifon y gymdeithas) yn uniongyrchol i'r aelodau, a gellir gwneud hyn yn rhad iawn drwy'r e-bost – fodd bynnag, bydd angen i chi gael caniatâd gan aelodau i gylchredeg gwybodaeth iddynt fel hyn: fel arall bydd yn rhaid iddynt dderbyn dogfennau drwy'r post.

Byddech hefyd yn gallu rhoi hysbysiad drwy osod rhybudd o'r cyfarfod a'r agenda yn swyddfa gofrestredig y gymdeithas ac mewn lleoliadau priodol eraill, fel hysbysfwrdd y pentref a siopau lleol. Mae un enghraifft o agenda nodweddiadol ynghyd â gwybodaeth ategol yn cael ei dangos yn yr adran hon.

Y cyfarfod cyffredinol blynyddol fydd y prif gyfle (a'r unig un ffurfiol fel arfer) i aelodau ofyn cwestiynau am y dafarn a brynwyd â'u harian, felly cymerwch ddigon o amser i baratoi a byddwch yn barod am bob math o gwestiynau, yn amrywio o gwestiynau manwl am y sefyllfa ariannol i liw'r carped yn y lolf a phob math o bethau eraill.

Gadewch ddigon o amser ar gyfer cwestiynau ac, os nad yw'r atebion wrth law, dywedwch y byddwch yn dod yn ôl at yr holwr gyda'ch ymateb cyn gynted â phosibl.

Yr unig gynigion y gellir pleidleisio arnynt yn y cyfarfod yw'r rheini sydd wedi ymddangos ar yr agenda ac, er bod modd cynnal pleidleisiau dangosol ar faterion eraill, ni fyddant yn rhwymo'r gymdeithas.

Os byddwch yn gadael i aelodau wybod ymhell cyn cylchredeg yr hysbysiad fod y cyfarfod i'w gynnal, a'u bod yn gallu cyflwyno cynigion ffurfiol i'w trafod, byddwch yn cael gwybod o flaen llaw beth sydd ar eu meddwl a gallwch holi'r aelodau i weld a ydynt am gael trafodaeth gyffredinol i gasglu barn yr aelodau neu a ydynt am gael pleidlais ar gynnig penodol. Er bod darpariaeth yn y rhan fwyaf o reolau i'r aelodau hawlio cyfarfod i drafod materion sy'n peri pryder iddynt, mae'r rhwystrau rhag gwneud hyn yn sylweddol a gallwch ofyn am adborth ar lefel llawer is na'r trothwy ar gyfer hawlio cyfarfod. Gwell o lawer yw ceisio mewnbwn am faterion sy'n peri pryder yn hytrach na cheisio eu hanwybyddu a'u cadw oddi ar yr agenda ffurfiol. Yn syml, dylai'r aelodau sy'n berchen ar y gymdeithas gael yr un hawl i ffurfio'r agenda ag sydd gan y pwyllgor (nad yw'n berchen ar y gymdeithas!).

Bydd llawer o gymdeithasau'n darparu lluniaeth a diodydd i aelodau sy'n dod i'r cyfarfod cyffredinol blynyddol. Mae hyn yn gymhelliant iddynt ddod ac yn creu awyrgylch cynhwysol ar gyfer y cyfarfod.


Fel arfer, bydd y pleidleisio mewn cyfarfod cyffredinol blynyddol yn digwydd drwy ddangos dwylo ond fe allai fod yn well cynnal etholiadau i'r pwyllgor drwy bapurau pleidleisio, fel y rheini yn y dogfennau enghreifftiol isod.

Felly, y pethau hanfodol ar gyfer rhedeg y cyfarfod cyffredinol blynyddol yn effeithiol ac effeithlon yw:

- rhoi gwybod am y dyddiad mor gynnar â phosibl (anfon e-byst yn gofyn am 'gadw'r dyddiad yn wag')
- paratoi'r wybodaeth sydd ei hangen, gan sicrhau yn enwedig fod y datganiadau ariannol yn barod ac wedi'u cymeradwyo gan y pwyllgor rheoli
- dosbarthu'r agenda a'r nodiadau 14 diwrnod ar yr hwyraf cyn y cyfarfod cyffredinol blynyddol
- derbyn enwebiadau ar gyfer ethol i'r pwyllgor (gall aelodau eu henwebu eu hunain)
- os oes angen, trefnu pleidlais drwy'r e-bost ar gyfer yr etholiad
- os cawsoch rybudd ymlaen llaw am gwestiynau penodol, gofalu bod yr atebion gennych
- gorau po fwyaf o aelodau'r pwyllgor fydd yn cymryd rhan yng nghyflwyniadau'r cyfarfod cyffredinol blynyddol – nid peth da yw gadael pob dim i'r cadeirydd
- gwneud i'r aelodau deimlo'n gartrefol ac yn rhan o'r gweithgareddau – darparwch luniaeth a gwrandao ar bopeth y mae'r aelodau yn ei godi.

Er gwaethaf y trefniadau ffurfiol sy'n rhan o'r cyfarfod cyffredinol blynyddol, fe all fod yn achlysur difyr ac mae'n sicr yn un o'r digwyddiadau pwysicaf i'r gymdeithas a'i haelodau.

DS Fel cymdeithas, mae'n ofynnol i chi gael archwiliad annibynnol o'r cyfrifon bob blwyddyn, ond bydd bron pob tafarn gymunedol yn gallu pasio penderfyniad yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol a fydd yn ei rhyddhau o'r broses hon, sy'n un ddrud fel arfer. Bydd y penderfyniad yn gymwys dim ond i'r cyfrifon sydd i'w cyflwyno ar gyfer y flwyddyn ariannol pan gynhelir y cyfarfod cyffredinol blynyddol ac a fydd yn cael eu cyflwyno i'r cyfarfod cyffredinol blynyddol nesaf yn y flwyddyn ddilynol (hynny yw, nid y cyfrifon y mae'r cyfarfod cyffredinol blynyddol yn eu derbyn ar y pryd) a bydd angen ei gymeradwyo drwy bleidlais lle mae 80% o'r pleidleiswyr yn ei gymeradwyo, a lle nad yw nifer y rheini sy'n pleidleisio yn ei erbyn yn fwy na 10% o'r aelodaeth gyfan.



Enghraifft o hysbysiad am gyfarfod cyffredinol blynyddol a nodiadau cefndir

Hysbysiad i Gyfranddalwyr

Fe'ch gwahoddir drwy hyn i ddod i ail Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cymdeithas Tafarn Gymunedol Trerywle Cyfyngedig.

Dyddiad: Dydd Sadwrn 28 Medi 2024

Amser: 12:00 hanner dydd

Lleoliad: Yr Encil, Stryd Fawr, Trerywle

Agenda

1. Croeso
2. Ymddiheuriadau
3. Adroddiad y Cadeirydd
4. Adroddiad y Trysorydd
 - a) Derbyn Cyfrifon am y cyfnod a ddaeth i ben 31 Hydref 2018;
 - b) Cynnig i hepgor yr angen am archwiliad llawn o'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a ddaw i ben 31 Mawrth 2024, yn unol ag adran 84 o Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014;
 - c) Cynnig i gronni llog ar gyfalaf cyfranddaliadau ar y gyfradd o 2.5% y flwyddyn ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol 2023-24, i'w dalu ym mlwyddyn ariannol 2024-25
5. Aelodaeth a Strategaeth Aelodaeth
6. Cynnig ar fanciau bwyd yn y dafarn, wedi'i gyflwyno gan J Smith a 5 aelod arall

"O ystyried yr anawsterau parhaus o ran costau byw, ac yn ngolwg cenhadaeth y dafarn i ddarparu budd i gymuned Trerywle a diffyg unrhyw gyfleusterau o'r fath ar hyn o bryd yn Nhrerywle, rydym yn cyfarwyddo'r pwyllgor i gyflwyno gwasanaeth banc bwyd ac i annog aelodau i gymryd rhan drwy roddi a defnyddio bwyd yn barhaus."
7. Cwestiynau
8. Ethol Aelodau i'r Pwyllgor Rheoli
9. Unrhyw fater arall
10. Diwedd

Jo Bloggs
Ysgrifennydd y Gymdeithas
9 Medi 2024

Enghraifft o hysbysiad am gyfarfod cyffredinol blynyddol a nodiadau cefndir parhad

Nodiadau cefndir ar gyfer Cyfarfod Blynyddol yr Aelodau

Pwrpas y nodyn hwn yw'ch hysbysu am y gweithdrefnau a gaiff eu mabwysiadu ar gyfer y Cyfarfod a rhoi gwybodaeth gefndir am rai o eitemau'r Agenda.

Mae'r gwahoddiad yn un i aelodau Cymdeithas Tafarn Gymunedol Trerywle Cyfyngedig yn bennaf. Bydd croeso i'r rheini nad ydynt yn aelodau ond dim ond Aelodau a gaiff siarad a phleidleisio ar unrhyw fater.

Eitem agenda 4 - Adroddiad y Trysorydd

Eitem b. Oherwydd ein strwythur cyfreithiol, mae gennym ddewis i ddatgymhwyso'r gofyniad i ymgymryd ag archwiliad proffesiynol llawn, sy'n cael ei ganiatáu gan adran 84 o Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014. Yn amodol ar bleidlais yr Aelodaeth, mae'r Pwyllgor yn cynnig ein bod yn llunio cyfrifon heb eu harchwilio i'w cyflwyno i'r FCA.

Eitem c. Mae'r Pwyllgor yn cynnig y dylai Cyfranddalwyr gytuno y bydd llog yn cael ei dalu ar gyfer y flwyddyn gyfredol ar gyfranddaliad pob Aelod ar gyfradd o 3% y flwyddyn, yn daladwy fel swm gros ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024. Mae'r Pwyllgor yn credu bod y gyfradd hon yn deg a chystadleuol yn yr amgylchedd presennol.

Eitem agenda 7 - Cwestiynau

Bydd y Pwyllgor sy'n ymadael yn ymateb i gwestiynau yn y Cyfarfod Blynyddol. Byddai o gymorth os gellid cyflwyno cwestiynau ymlaen llaw, drwy e-bost, fel y gallwn gasglu unrhyw wybodaeth berthnasol a hefyd osgoi dyblygu neu orgyffwrdd rhwng cwestiynau. Byddwn yn gwneud ein gorau, wrth gwrs, i ateb cwestiynau ar y diwrnod.

Eitem agenda 8 - Ethol aelodau newydd i'r Pwyllgor Rheoli

Ar hyn o bryd, mae 6 aelod ar y Pwyllgor Rheoli, fel a ganlyn: Hannah Huws (etholwyd 2021 am 3 blynedd) Frank Francis (etholwyd 2021 am 3 blynedd) Florence Fletcher (etholwyd 2022 am 3 blynedd) Charlotte Cook (etholwyd 2022 am 3 blynedd) Ben Bowen (etholwyd 2023 am 3 blynedd) Sonny Selwyn (cyfetholwyd Awst 2023)

Yn unol â rheolau'r Gymdeithas, bydd Hannah Huws a Frank Francis yn rhoi'r gorau i fod yn aelod yn y Cyfarfod Blynyddol ac maent yn gymwys i sefyll i gael eu hailethol.

Gellir cael lleiafswm o 4 aelod ac uchafswm o 9 aelod ar y Pwyllgor Rheoli. Oherwydd y llwyth gwaith, mae'r Pwyllgor Rheoli yn credu bod angen cynyddu nifer yr aelodau. O ganlyniad i hyn, mae hyd at 4 o leoedd i'w llenwi ar y Pwyllgor Rheoli.

Os oes unrhyw Aelod sy'n dymuno cael ei ystyried i'w ethol i'r Pwyllgor Rheoli, byddwch cystal â rhoi gwybod i'r Ysgrifennydd drwy'r e-bost (secretary@yourcommunitypub.co.uk) neu'r post (Ysgrifennydd y Gymdeithas, Tafarn Gymunedol Trerywle Cyfyngedig, Yr Encil, Stryd Fawr, Trerywle AB12 3CD) ddim hwyrach na 17:00 ar 8 Medi 2024. Dylai ymgeiswyr ddarparu disgrifiad hyd at 200 o eiriau o hyd i'w roi gyferbyn â'u henw ar y papur pleidleisio, os ydynt yn dymuno.

Os bydd nifer yr ymgeiswyr yn fwy na 4, cynhelir etholiad.

Os bydd angen cynnal etholiad, bydd hysbysiadau am y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn cael eu cylchredeg gyda phapur pleidleisio a bydd cyfle yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i glywed gair gan yr ymgeiswyr a gofyn cwestiynau iddynt cyn pleidleisio. Gall Aelodau bleidleisio cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol hefyd.

Os bydd etholiad, cyhoeddir y canlyniadau yn y Cyfarfod Cyffredinol ar 28 Medi 2024.

Bydd yn ofynnol i holl Aelodau'r Pwyllgor gydymffurfio ag amodau Cod Ymddygiad y Pwyllgor Rheoli. Gellir darparu copi o'r Cod Ymddygiad ar gais.



6. Gofynion diogelu data

Fel sefydliad cymunedol sydd â nifer mawr o aelodau, mae'n dilyn y bydd gan bob Cymdeithas Budd Cymunedol wybodaeth bersonol am ei sylfaen aelodaeth. Bydd hyn yn cynnwys manylion cyfeiriadau post ac e-bost, niferoedd y cyfranddaliadau a brynwyd (ac a dynnwyd yn ôl) a manylion am dalu llog, yn cynnwys gwybodaeth bancio.

Yn ogystal â hyn, gall y gymdeithas ddal data personol cyflogeion (cyflogau, rhifau Yswiriant Gwladol, manylion bancio, manylion am gyflogaeth flaenorol etc.), cyflenwyr a chwsmeriaid (cyfeiriadau, rhifau ffôn etc.).

Er bod y rhan fwyaf o Gymdeithasau Budd Cymunedol yn fentrau bach sy'n gweithredu ar sail y gymuned, mae cyfreithiau diogelu data yn gymwys iddynt ac nid oes dewis ond cydymffurfio.

Cyflwynwyd deddfwriaeth newydd ar ddiogelu data ar 25 Mai 2018 – y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data ('GDPR'), sy'n disodli rheolau blaenorol. Mae'r Rheoliad newydd hwn yn ehangu cwmphas cyfreithiau preifatrwydd personol i ddiogelu hawliau data yr unigolyn, yn ychwanegu atebolrwydd am ddal unrhyw ddata personol, ac yn rhoi mwy o reolaeth i unigolion o ran pwy sy'n dal eu data a sut byddant yn cael eu defnyddio.

Mae'r GDPR yn gymwys i 'ddata personol' sy'n golygu unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw unigolyn, fel ei enw, manylion cyswllt, manylion cyfrif banc etc. Os gellir adnabod rhywun ar sail y data, yna maent yn cael eu hystyried yn rhai 'personol'.

Mae'r GDPR yn gymwys i BOB sefydliad a busnes sy'n rheoli a/neu yn prosesu data personol. Mae'r rheini sy'n torri'r Rheoliad yn wynebu'r posibilrwydd o dderbyn cosbau ariannol sylweddol.

Drwy gymryd nifer o gamau syml, bydd cymdeithasau'n gallu rheoli eu cyfrifoldebau i gwrdd â gofynion y ddeddfwriaeth.

Mae offer ar gael i'w helpu ac mae gwybodaeth berthnasol ar gael drwy ddilyn y dolenni hyn. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (yr 'ICO') wedi llunio'r canllaw manwl canlynol:

<https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/>


ac mae Co-operatives UK hefyd wedi llunio canllawiau i'r rheini sydd yn y sector hwn:

<https://www.uk.coop/gdpr>

<https://www.uk.coop/sites/default/files/2020-10/gdpr-for-co-ops-resource.pdf>

<https://www.uk.coop/sites/default/files/2020-10/gdpr-training-preparation.pdf>

Fel y nodwyd yn gynharach, er bod y GDPR yn golygu nad oes neb yn cael gweld gwybodaeth heb gael caniatâd gan y defnyddiwr i wneud hynny, mae hawl gan aelodau i archwilio'r gofrestr o aelodau. Rhaid i'r pwyllgor gymryd gofal da o'r gofrestr a chynnal egwyddorion y GDPR. Nid yw hynny'n drech na hawl yr aelodau i weld y gofrestr o dan Ddeddf 2014.




Mae diogelu data a'r GDPR yn faterion cymhleth ond mae'r ICO wedi datgan mai ei hamcan yw cynorthwyo yn hytrach na chosbi.

Bydd ychydig o gamau syml yn helpu cymdeithasau i gyflawni eu cyfrifoldebau o dan y GDPR. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Mabwysiadu Polisi Diogelu Data a fydd ar gael os gofynnir amdano. Bydd llawer o fentrau'n cynnwys dolen at y polisi ar eu gwefan.
- Hysbysu pawb sy'n cael ei effeithio (cyfranddaliwyr, cyflogeion, cwsmeriaid, cyflenwyr) bod data amdanynt yn cael eu cadw a'u bod ar gael i'w harchwilio ganddynt.
- Yn y ffurflen gais sydd wedi'i hatodi i ddogfennau'r cynnig cyfranddaliadau, dylid cadarnhau y bydd y wybodaeth a ddarperir yn cael ei thrin yn unol â Pholisi Diogelu Data y gymdeithas ond nad yw'r polisi'n rhwystro aelodau rhag archwilio'r gofrestr a'r holl wybodaeth sydd ynddi (ar wahân i gyfranddaliadau pobl eraill).

- Cadw'r data ar weinydd diogel pell gan gyfyngu'r mynediad atynt i nifer bach o bobl ar y pwyllgor rheoli.
- Defnyddio cyfeiriad e-bost sefydliadol i anfon negeseuon (e.e. cymunedxyz@gmail.com neu jane@cymunedxyz.co.uk) yn hytrach na chyfeiriad personol.
- Sicrhau mai copïau 'dall' yw'r holl negeseuon a anfonir at grwpiau drwy'r e-bost ('bcc'). Mae rhai cymdeithasau heb roi'r gorau i'r arfer o ddangos cyfeiriadau e-bost yr holl dderbynwyr.



7. Trethiant a delio â cthef

Mae cymdeithas sy'n rhedeg tafarn gymunedol yn gorfod bod yn ymwybodol o'r nifer mawr o bwyntiau cyswllt a all godi mewn perthynas â CThEF– ac nid yw'r rhain yn ymwneud â threth yn unig.

DS Mae'n bwysig cofio bod unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud â materion treth y Gymdeithas yn rhai a ddylai gael eu cyfeirio i sylw unigolyn neu gwmni sydd â chymhwyster priodol. Mae'r crynodeb hwn yn ganllaw syml ar y cysylltiadau rhwng cymdeithasau a CThEF.

Prif feysydd y berthynas rhyngddynt (lle maent yn berthnasol) yw treth gorfforaeth, TAW, Talu Wrth Ennill, y Cynllun Cofrestru Cyfanwerthwyr Alcohol (AWRS) a'r Datganiad Cymdeithas Gofrestredig.

Treth gorfforaeth

Mae cymdeithasau'n atebol am dalu treth gorfforaeth ar delerau eithaf tebyg i gwmnïau. Mae canllawiau manwl ar gael ar y ffordd y mae trethiant cwmnïau yn berthnasol i gymdeithasau yn Llawlyfr Trethu Cwmnïau CThEF CTM40500.

Gweler hefyd <https://communityshares.org.uk/resources/handbook/introduction-5>

Mae'n bwysig bod cymdeithasau'n cofio:

- when calculating taxable income, share capital and donations received are not classed as trading income.
- Wrth gyfrifo incwm trethadwy, nad yw cyfalaf cyfranddaliadau a rhoddion a dderbynnir yn cael eu hystyried yn incwm masnachu.
- Wrth gyfrifo costau y gellir eu didynnu, y gallant ddefnyddio'r arian y byddent wedi'i wario ar amser gwirfoddolwyr pe byddai'r bobl hynny'n staff cyflogedig yn hytrach na gwirfoddolwyr. Mae hyn yn gymwys dim ond i weithgareddau i gyflawni gweithgarwch masnachu'r gymdeithas, ac nid yw'n cynnwys yr amser sy'n cael ei dreulio ar fusnes y gymdeithas gan aelodau pwyllgor. Yr enw ar hyn yw 'Egwyddor Peterhead' a gallwch ddarllen rhagor amdani yma: <https://www.gov.uk/hmrc-internal-manuals/business-income-manual/bim24475>

TAW

Mae pob sefydliad masnachu, yn cynnwys cymdeithasau, sy'n cael neu'n disgwyl cael trosiant o £85,000 (yn gywir hyd 31/03/24) yn gorfod cofrestru ar gyfer TAW, ond gallwch gofrestru'n wirfoddol hefyd os yw'ch trosiant yn llai na hyn.

O'r dyddiad y mae'ch cofrestriad TAW yn dod i rym, rhaid i chi wneud y canlynol:

- codi'r swm cywir o TAW
- talu unrhyw TAW sy'n ddyledus i CThEF
- cyflwyno Datganiadau TAW
- cadw cofnodion TAW a chyfrif TAW

Mae'n bosibl hefyd y bydd cymdeithasau sydd newydd eu sefydlu yn gallu adhawlio'r TAW a dalwyd ar rai pethau a brynwyd cyn cofrestru. Gweler: <https://www.gov.uk/vat-registration>

Talu Wrth Ennill

Os yw'r gymdeithas yn cyflogi staff, bydd yn atebol am wneud taliadau Talu Wrth Ennill i CThEF.

Mae angen cofrestru fel cyflogwr gyda CThEF pan ddechreuwch gyflogi staff.

Rhaid i chi gofrestru cyn y diwrnod tâl cyntaf. Fel arfer, bydd yn cymryd hyd at 5 niwrnod i gael rhif cyfeirio Talu Wrth Ennill y cyflogwr. Ni allwch gofrestru'n gynharach na 2 fis cyn dechrau talu pobl.

<https://www.gov.uk/pay-for-employers>

Yn rhan o'r broses cyflogi, mae'n bwysig cofio y bydd angen cofrestru cyflogeion mewn cynllun pensiwn os ydynt yn cwrdd â meini prawf penodol. Y meini prawf yw bod rhwng 22 oed ac oed ymddeol ac ennill £10,000 neu fwy y flwyddyn.

<https://www.thepensionsregulator.gov.uk/en/employers/new-employers>

Y Cynllun Cofrestru Cyfanwerthwyr Alcohol (AWRS)

Os ydych yn gwerthu alcohol i fusnes arall, mae'n bosibl y bydd angen gwneud cais am gymeradwyaeth ar gyfer y Cynllun Cofrestru Cyfanwerthwyr Alcohol (AWRS). Cyflwynwyd y cynllun hwn gan CThEF er mwyn mynd i'r afael â thwyll yn ymwneud ag alcohol.

Byddech yn wynebu cosbau wrth fasnachu heb gael cymeradwyaeth. Yn ogystal â hyn, o 1 Ebrill 2017, os ydych yn prynu alcohol i'w werthu oddi wrth gyfanwerthwr yn y DU, mae angen gwirio bod y cyfanwerthwr wedi'i gymeradwyo gan CThEF a bod ganddo Gyfeirnod Unigryw (URN) ar gyfer AWRS.

Felly mae dau brif ofyniad i gymdeithasau sy'n rhedeg tafarn gymunedol:

1. gwirio bod Cyfeirnod Unigryw gan y cyfanwerthwr -<https://www.gov.uk/check-alcohol-wholesaler-registration>
2. os ydych yn gwerthu alcohol i gwsmer a fydd yn ei werthu yn ei dro i'w gwsmeriaid ei hun, yna bydd angen i chi gael eich cofrestru ar gyfer yr AWRS. Er enghraifft, os yw'r dafarn wedi'i gosod i denant a bod cytundeb rhwng y gymdeithas a'r tenant ar gyfer gwerthu cwrw i'r tenant, yna bydd angen cofrestru. <https://www.gov.uk/guidance/the-alcohol-wholesaler-registration-scheme-awrs>

Datganiad Cymdeithas Gofrestredig

Mae adran 887 o Ddeddf Treth Incwm 2007 yn ei gwneud yn ofynnol i gymdeithasau cofrestredig gyflwyno manylion i CThEF am y mathau canlynol o dâl lle nad yw treth wedi'i didynnu:

- taliad llog a wnaed gan gymdeithas gofrestredig mewn perthynas ag unrhyw forgais, benthyciad, stoc benthyc neu flaendal
- unrhyw log, difidend, bonws neu swm arall sy'n daladwy i gyfranddaliwr cymdeithas gofrestredig drwy gyfeirio at swm daliad y cyfranddaliwr yng nghyfalaf cyfranddaliadau'r gymdeithas

Mae'r gymdeithas o dan rwymedigaeth gyfreithiol i anfon y wybodaeth i CThEF o fewn 3 mis ar ôl diwedd cyfnod cyfrifyddu'r gymdeithas. Fel arfer, ni fydd CThEF yn gofyn am fanylion taliadau o lai na £250 ar gyfer y flwyddyn dan sylw.

Os na wnaed taliadau neu os nad oedd dim a oedd yn fwy na £250, dylid datgan hynny ar y ffurflen.

<https://www.gov.uk/government/publications/notes-for-submitting-a-return-under-section-887-of-the-income-tax-act-2007-on-a-spreadsheet-industrial-and-provident-society-ips-5fa>



8. Crynodeb

Mae pob un o'r adrannau yn y Canllaw hwn yn cynnwys manylion sy'n bwysig at reoli cymdeithas yn effeithiol. Fe all llywodraethu ymddangos yn orchwyl diflas, er mor hanfodol y mae.

Fodd bynnag, os caiff ei wneud yn dda, bydd yn creu sylfaen i'r gymdeithas ac yn gosod y seiliau ar gyfer rhedeg y fenter yn dda.

Mae llawer o'r tasgau angenrheidiol yn eithaf syml ond, os bydd angen cyngor neu gymorth arnoch ar unrhyw bwnc, bydd help ar gael yn y ffynonellau canlynol:


- Eich rheolau enghreifftiol. Mae'r rhain yn rhoi arweiniad helaeth i'ch helpu i redeg y gymdeithas.
- Mae tudalen Facebook y Rhwydwaith Tafarndai Cydweithredol yn fforwm rhagorol lle gallwch ofyn cwestiynau am dafarndai cymunedol. <https://www.facebook.com/groups/communitypubsnetwork/>
- Eich synnwyr cyffredin – peidiwch â'i ddiystyru! Bydd ymagwedd ddeallus a synhwyrol at unrhyw gwestiynau sy'n codi yn debygol o'ch arwain at yr ateb cywir.



Ynghylch Plunkett

Mae Plunkett UK yn elusen genedlaethol sy'n cefnogi pobl mewn ardaloedd gwledig i sefydlu a rhedeg ystod eang o fusnesau sy'n eiddo i'r gymuned. Gwnawn hyn i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer y DU gyfan ar gyfer cymunedau gwledig gwydn, ffyniannus a chynhwysol. Mae busnesau sy'n eiddo i'r gymuned yn cael eu perchnogi a'u rheoli gan aelodau'r gymuned sydd â llais cyfartal a democrataidd yn y modd y caiff y busnes ei redeg.

Mae Plunkett wedi hyrwyddo'r model perchnogaeth gymunedol ers dros 100 mlynedd oherwydd ei hanes o ddarparu busnesau gwell i bobl, cymunedau, yr economi, a'r amgylchedd. Heddiw, rydym yn cynrychioli 800 o fusnesau masnachu sy'n eiddo i'r gymuned a 500 arall sydd yn y broses o sefydlu. Mae Plunkett yn codi ymwybyddiaeth o'r model busnes cymunedol, yn darparu cymorth busnes cymunedol ymarferol, ac yn cynrychioli ein haelodau trwy rwydweithio, ymchwilio ac eirioli gyda'r llywodraeth, melinau trafod a chyllidwyr.



Plunkett UK

The Quadrangle
Woodstock
Oxfordshire OX20 1LH

+44 (0)1993 630022
info@plunkett.co.uk

plunkett.co.uk   

Mae Plunkett UK yn elusen gofrestredig, rhif CC 313743 (Cymru a Lloegr) a rhif SC 045932 (yr Alban). Mae'n gwmni cyfyngedig drwy warant, rhif cofrestredig 00213235.

